



DATGANIAD I'R WASG
DYDD LLUN 16 TACHWEDD

Metamorphosis, profiad digidol ar-lein Hijinx a dderbyniodd ganmoliaeth uchel, i'w ddarlledu fel rhan o Wobrau Gŵyl Rhyngwladol Good The@tre 2020

Mae perfformiad digidol ar-lein Hijinx, **Metamorphosis**, a dderbyniodd glod uchel iawn gan yr adolygwyr, wedi ei ddewis i rownd derfynol digwyddiad codi arian rhyngwladol, sef the Good The@tre Festival 2020, a fydd yn arddangos y profiad rhyngweithiol ar-lein ddydd Sadwrn, 28 Tachwedd, cyn cyhoeddi enillwyr gwobrau'r ŵyl.

Mae cwmni Hijinx, o Gaerdydd, yn creu cynyrchiadau theatrig eithriadol gydag actorion anabl a/neu awtistig. Mae ei waith theatr, sy'n derbyn canmoliaeth uchel, yn wreiddiol, yn rhyfeddol, cyffrous a doniol, ac mae'r galw amdano'n fawr o bedwar ban byd. Ymhlith y cynyrchiadau mae *Meet Fred*, *The Flop* ac *Into the Light* (gyda Frantic Assembly) a bu ar daith i dros 20 o wledydd yn ystod blynyddoedd diweddar.

Ysbrydolwyd **Metamorphosis** gan nofel fer glasurol Franz Kafka, ac fe'i hailddychmygwyd ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein tra'n archwilio'r manteision, y cyfyngiadau a gwerth comediadd galwadau fideo. Roedd **Metamorphosis** yn waith arbrofol ar gyfer Hijinx drwy ailgreu natur hynod ryngweithiol Hijinx trwy gyfrwng yr ymarferoldeb sydd ar gael gyda Zoom.

Fe'i perfformiwyd gyntaf eleni yng ngŵyl ddigidol ar-lein *Green Man: Festival of Streams* ym mis Awst. I'r rhai a fethodd y profiad, mae cyfle i gynulleidfaoedd ymgysylltu eto â'r perfformiad ddydd Sadwrn 28 Tachwedd am 8.30am a 9.30pm (GMT) ac i helpu gefnogi'r celfyddydau fel rhan o achlysur codi arian.

Mae **Metamorphosis** yn dilyn hanes Gregor Samsa sy'n dihuno un bore o freuddwydion anesmwyth i ganfod ei fod wedi troi'n anghenfil o bryfyn trogennog. Mae wedi'i analluogi, wedi ei gyfyngu i'r tŷ, yn methu gweithio ac yn methu gafael yn dynn yn ei deulu. Yn y fetadrama hon, mae pob un o'r 11 cymeriad yn dihuno i fyd gwahanol, yn cael eu gorfodi i ailddehongli eu proffesiwn, eu hunaniaeth, yn wir, eu gwerth i'r byd.

Yn ystod y perfformiad, caiff y gynulleidfa gyfle i ryngweithio trwy Zoom neu hyd yn oed i fod yn rhan o'r gweithgareddau, felly dylen fod wedi eu gwisgo'n briodol, neu o leiaf, wedi gwisgo. Bydd cast Hijinx yn perfformio'n fyw o'u cartrefi, lle gallai ambell ecstra annisgwyl (ci, gath neu blentyn) ymddangos unrhyw bryd.

Bydd yr actor Ffion Gwyther o Academi Hijinx, a ddaeth yn llwyddiant ysgubol ar youtube yn ddiweddar gyda'i [fideos cyfnod clo](#) a'i hymadrodd 'cwtch in and have a drink', yn ymddangos yn y cynhyrchiad theatrig ar-lein ynghyd â phedwar actor arall o Academi Hijinx a phum tiwtor Hijinx. Academi Hijinx yw'r unig gwrs hyfforddi perfformio i actorion ag anabledau dysgu trwy Gymru gyfan.

Bydd Gŵyl Good The@tre 2020 hefyd yn cynnwys actorion eraill yn y rownd derfynol o Frasil, yr Unol Daleithiau, Prydain, y Ffindir, Sweden, yr Almaen, Cabo Verde, Nigeria, Senegal, De Affrica, Zimbabwe, Iran, India, Singapôr, cyn cael eu beirniadu gan banel o Pilipinas (Ynysoedd Philippines), Singapôr, India,

yr Eidal, y Ffindir, Prydain a'r Unol Daleithiau. Mae'r gwobrau'n cynnwys Perfformiad Gorau, y Sgrïpt Orau, Defnydd mwyaf Arloesol o Dechnoleg, y Cyfarwyddo Gorau a'r Cynhyrchiad Gorau i'w cyflwyno ar gyfer e-ddramau.

Mae Gŵyl a Gwobrau Good The@tre yn ddigwyddiad codi arian yn ogystal ag yn achlysur i gydnabod y rhai sydd wedi creu yn ystod y cyfnod diweddar o gau gofodau perfformio ar draws y byd. Lluniwyd yr Ŵyl a'r Gwobrau i godi arian angenrheidiol i grefftwyr theatraidd yn India sydd heb unrhyw ffynhonnell ariannol i'w cynnal. Mae'r Tocyn Tymor i gael mynediad at yr ŵyl gyfan AM DDIM rhwng 21 a 29 Tachwedd, ond bydd croeso i unrhyw gyfraniad ariannol yn ystod y cyfnod hwn o angen. <https://www.theredcurtaininternational.org/donate>

Meddai Cyfarwyddwr Artistig Hijinx a Chyfarwyddydd Metamorphosis, Ben Pettitt-Wade, "Rydym yn falch tu hwnt o gael ein dewis i fod yn rhan o'r ŵyl hon. Nid yn unig oherwydd ein bod yn gefnogwyr brwd o'r achos a gynrychiolir ganddynt – bydd yr holl arian o'r ŵyl yn mynd at artistiaid yn India sydd â'r angen mwyaf. Mae'r pandemig hwn wedi effeithio ar y celfyddydau ym mob rhan o'r byd ac mae'n anochael mai'r rhai yr effeithiwyd arnynt waethaf ar yr adeg hon yw masnachwyr unigol a gweithwyr llawrydd sydd yn bendant yn wir ym Mhrydain. Rydym yn falch iawn o fod ynghlwm ag unrhyw beth a all helpu'r rhai sydd â'r angen mwyaf ar yr adeg hon."

Mae Hijinx yn derbyn nawdd hael gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Esmée Fairbairn, Ymddiriedolaeth Julia a Hans Rausing, Sefydliad Banc Lloyds, Sefydliad Morrisons, Sefydliad Rayne a BBC Plant mewn Angen.

Mae gwybodaeth bellach am Ŵyl a Gwobrau Feel Good 2020 ar gael yn <https://www.hijinx.org.uk/cy/hafan/>. Dilynwch Hijinx ar Twitter neu Instagram @HijinxTheatre am fwy o wybodaeth.

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth i'r wasg, delweddau, neu i drefnu cyfweiliad, cysylltwch â Suzanne Carter Marketing suzannecartermarketing@gmail.com / 07885977044

Nodiadau i'r Golygydd

Hijinx yw un o gwmnïau theatr mwyaf cynhwysol Ewrop. Mae'n ymdrechu am gydraddoldeb trwy greu celf gydag actorion sydd ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth ar lwyfan, sgrin, y stryd, yn y gweithle, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i Gymru ac i'r byd.

Mae ei waith theatr, sy'n derbyn canmoliaeth uchel, yn wreiddiol, yn rhyfeddol, cyffrous a doniol, ac mae'r galw amdano'n fawr ar draws y byd. Ymhlith ei gynyrchiadau mae *Meet Fred*, *The Flop* ac *Into the Light* (gyda Frantic Assembly) a fu ar daith i dros 20 o wledydd mewn blynyddoedd diweddar.

Drwy Gymru gyfan, mae Academiâu Hijinx yn darparu hyfforddiant drama proffesiynol ar gyfer 70 o actorion gyda thalentau unigryw. Mae'r Actorion Hijinx hyn, sydd â chyflyrau megis Syndrôm Down, Awtistiaeth a Syndrôm Asperger, wrth wraidd gwaith y cwmni o ran cynyrchiadau, busnesau a phrosiectau cymunedol. Maent yn cael eu hyrwyddo i'r theatr a'r diwydiannau teledu a ffilm ehangach yn www.hijinxactors.co.uk, platfform castio mwyaf y DU i actorion sydd ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth.

Nod Hijinx yw sicrhau fod mwy o actorion ag anabledau dysgu a/neu awtistiaeth ar y teledu a ffilmiau, yn ogystal ag ar lwyfannau. Mae Hijinx Films yn cynhyrchu ffilmiau byrion trawiadol iawn i godi proffeil ac effaith talentau unigryw actorion Hijinx, ac yn 2018, cyhoeddodd y cwmni argymhellion

ar gyfer safonau diwydiant sgrin newydd ar gyfer castio actorion ag anableddau dysgu (niwroddargyfeiriol).

Mae Hijinx Pawb yn cynnig rhwydwaith o gyrsiau drama cymunedol ar draws Cymru i bawb sydd am actio, waeth beth yw eu gallu neu brofiad.

I gyd-fynd â hyn, mae Hijinx yn cynnig rhaglen hyfforddi arbenigol ragorol sy'n grymuso staff mewn amrywiaeth eang o fusnesau gyda'r hyder a'r sgiliau i gyfathrebu'n dda â chwsmeriaid sy'n agored i niwed.

Mae Hijinx yn derbyn nawdd hael gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Sefydliad Esmée Fairbairn, Sefydliad Banc Lloyds, a Phlant Mewn Angen BBC.

Am newyddion a'r diweddaraf am Hijinx, ewch i wefan <https://www.hijinx.org.uk/cy/hafan/>

Dilynwch Hijinx ar Twitter ac Instagram @HijinxTheatre neu Facebook.com/HijinxTheatre